GWEITHIO YM MAES
HAMDDEN A THWRISTIAETH

Beth? Sut? Pam?

Hamdden a Thwristiaeth yw'r holl lefydd a busnesau y mae pobl yn mynd iddynt i fwynhau eu hunain, p'un a ydynt yn byw yn lleol neu ar wyliau. Hamdden a Thwristiaeth yw un o ddiwydiannau hynaf y DU, ac mae wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd. Mae yna safleoedd ac atyniadau yn cael eu hadeiladu drwy'r amser, a phob un yn cynnig eu swyddi unigryw.

Gwyliwch y ffilm hwn

www.actonstem.co.uk

Sgiliau Angenrheidiol:

- Gallu i ddilyn rheolau a chanllawiau pwysig.
- Gwrando a deall.
- Cyfathrebu da - siarad, egluro, cyfarwyddo, cynghori.
- Bod yn ddwyieithog, os ydych yn byw yng Nghymru, a ieithoedd tramor ychwanegol.
- Gallu i weithio'n dda mewn tîm.
- Sgiliau cyfrifiadurol elfennol.
- Diddordeb mewn pobl a diddordeb mewn helpu pobl.
- Gwybodaeth elfennol o reoliadau Iechyd a Diogelwch.
- Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid gwych
- Gwasanaeth Cwsmeriaid Rhagorol.

"Ar hyd a lled Cymru, mae hamdden a thwristiaeth yn cynnig llwybr gyrfa rhyfeddol yn llawn cyfleoedd i feithrin a datblygu eich sgiliau."

Chwarae Teg

HAMDDEN A THWRISTIAETH
ENGHREIFFTIAU O SWYDDI

Tywysydd Twristiaid | Cyflog Cyfartalog: £18,000 (Hyd15)

Mae Tywysyddion ar gael ar gyfer gwahanol weithgareddau a lleoliadau.

Mae Tywysyddion Teithiau a Thywysyddion Mynyddoedd yn defnyddio eu gwybodaeth leol i helpu a thywys pobl o gwmpas lleoliadau cyffrous. Mae mannau fel Cymru nid yn unig yn llawn hanes, ond hefyd yn llawn llefydd y mae pobl eisiau eu harchwilio.

Y wybodaeth gyflawn ddiweddaraf:

www.careerswales.com/en/career-search/search?jobTitleId=10212

Aromatherapydd | Cyflog Cyfartalog: £25,000 (Hyd15)

Mae Aromatherapyddion yn defnyddio olewau a thrwythau arbennig (a echdynnwyd o blanhigion) er mwyn rhoi therapïau ymlaciol i gwsmeriaid/gwesteion.

Mae'n cymryd amser i ddysgu'r therapïau ac maent yn help tuag at wella a thawelu'r corff a'r meddwl. Mae deall sut mae'r corff yn gweithio yn rhan bwysig o'r gwaith.

Y wybodaeth gyflawn ddiweddaraf:

www.careerswales.com/en/career-search/search?jobTitleId=10048

Rheolwr Gwesty | Cyflog Cyfartalog: £25,000 (Hyd15)

Mae Rheolwyr Gwestai yn allweddol ar gyfer sicrhau bod gwestai'n gweithredu'n ddidrafferth am 24 awr y dydd.

Mae'n rhaid i Reolwr Gwesty sicrhau bod popeth yn digwydd yn ddidrafferth yn y gwesty. Mae'n gyfrifol am staff y gwesty, y busnes a sicrhau bod gwesteion yn cael amser rhagorol a'u bod yn dymuno aros yno eto yn y dyfodol.

Y wybodaeth gyflawn ddiweddaraf:

www.careerswales.com/en/career-search/search?jobTitleId=10127

Adnoddau Hamdden a Thwristiaeth:

www.careerswales.com/en/tools-and-resources/job-trends/tourism-hospitality/

nwef.infobasecymru.net/IAS/Custom/Resources/Infographics/Active_Tourism_Infographic_FINAL.pdf

www.youtube.com/watch?v=0nz85SKLoGk

Cynhyrchwyd mewn cydweithrediad a gyda diolch i: Tre-Ysgawen Hall COUNTRY HOUSE HOTEL AND SPA ★★★★

GWEITHGAREDD DOSBARTH
BECHGYN A GENETHOD AR WAITH

CANLLAW ATHRO

Mae pob mata o waith ar gael i ddynion a merched. Yn yr ymarferiad hwn mae'n rhaid i'r disgyblion feddwl am broffesiynau sy'n draddodiadol yn cael eu hystyried fel swyddi i ddynion neu ferched. Ar ôl llunio rhestr fer - mae'n rhaid i'r disgyblion lunio poster sy'n darlunio dynion a merched yn gweithio gyda'i gilydd mewn proffesiwn penodol e.e. adeiladwyr gwrywaidd a benywaidd a therapyddion harddwch gwrywaidd a benywaidd ayb.

SGILIAU ALLWEDDOL (Y CWRICWLWM CENEDLAETHOL):

- DYSGU CYMDEITHASOL
- DINASYDDIAETH FYD-EANG
- YMCHWILIAD CREADIGOL
- SIARAD A GWRANDO

PARATOI A DEUNYDDIAU:

- Bwrdd Gwyn/Bwrdd Gwyn Ryngweithiol
- Papur ymarfer
- Pensiliau lliw
- LLAWER O HWYL!

DULL:

1. Gofynnwch i'r disgyblion restru swydd/diwydiannau cyfarwydd a'u hysgrifennu ar y bwrdd gwyn, cardiau, nodiadau 'post-it' neu siart troi.

2. Gan ddefnyddio'r rhestr o broffesiynau, gofynnwch i'r disgyblion pa fath o berson y byddent yn disgwyl ei weld yn y swyddi penodol hynny. Efallai y bydd y disgyblion yn cyfeirio at ddiffoddwyr tân gwrywaidd neu ddylunydd gwalltiau benywaidd.

3. Nawr, gan ddefnyddio fideo STEM - pwysleisiwch yr amrywiaeth o ran rhyw a ddarlunnir ar y sgrin.

4. Gofynnwch i'r disgyblion ddewis un o'r proffesiynau a restrir/trafodir er mwyn creu poster sy'n darlunio dynion a merched yn gweithio gyda'i gilydd yn yr un swyddi neu swyddi 'o chwith'.

5. Nid oes yna swyddi sy'n rhyw benodol. Gall bechgyn a merched anelu i gael unrhyw swydd maent yn ei dymuno.

DEILLIANNAU DYSGU:

- Amlygu materion cymdeithasol pwysig: cydraddoldeb rhyw, cyfleoedd cyfartal a rhyddid gyrfa.
- Caniatáu disgyblion i ymgysylltu, trafod a dadansoddi materion pwysig.
- Rhoi tasg greadigol a hwyliog i ddisgyblion.
- Ymdrin â byd gwaith a'u rôl bosibl yn y byd hwnnw.
- Byddai'n fuddiol ailadrodd yr ymarferiad hwn eto yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn helpu i greu mwy o amrywiaeth o ganlyniadau ac i atgyfnerthu'r dysgu.

MWY O YMCHWIL AC ADNODDAU:

www.wisecampaign.org.uk//resources/2015/09/people-like-me-resource-pack

nwef.infobasecymru.net/IAS/launch

- **Canllawiau i Rieni ac Athrawon (erthygl)**

www.theguardian.com/education/2015/feb/27/guide-parents-help-girls-into-male-dominated-careers

- **Chwarae Teg**

www.cteg.org.uk

- **Tre-Ysgawen Hall**

www.treysgawen-hall.co.uk

Cynhyrchwyd mewn cydweithrediad a gyda diolch i: Tre-Ysgawen Hall COUNTRY HOUSE HOTEL AND SPA ★★★★

GWEITHGAREDD DOSBARTH
HAMDDEN A THWRISTIAETH AWYR AGORED YNG NGOGLEDD CYMRU

CANLLAW ATHRO



Hamdden a Thwristiaeth yw un o ddiwydiannau mwyaf Gogledd Cymru, ac mae'n cynnal tua 37,500 o swyddi!

Darllenwch a daflen 'ffeithlun' ar Dwristiaeth Awyr Agored yng Ngogledd Cymru.

http://nwef.infobasecymru.net/IAS/Custom/Resources/Infographics/Active_Tourism_Infographic_FINAL.pdf

Ceir popeth o westai, parciau gweithgareddau, canolfannau awyr agored, bwyd, cestyll, sŵau, hwylio a llawer mwy!

Allwch chi greu eich atyniad twristiaid eich hun?

Gan ddefnyddio'r bocs isod - crëwch enw eich busnes hamdden neu dwristiaeth eich hun a 'logo' neu hysbyseb.

ALLWCH CHI FEDDWL FEL PERCHENNOG BUSNES?

Beth yw enw eich busnes?

A yw'n enw bachog? A fydd pobl yn ei gofio? A yw'n enw Cymraeg neu Saesneg? Allwch chi ei roi ar logo neu boster a thaflenni?

Ble mae'r busnes wedi ei leoli?

A yw o dan dô, yn yr awyr agored, neu'r ddau? A oes raid i chi adeiladu rhywbeth newydd neu brynu adeilad? A yw mewn pentref neu dref brysur? Allwch chi gyrraedd yno yn hawdd mewn car, trên, bws neu ar feic?

Faint o bobl fydd angen i'r busnes eu cyflogi?

Os oes angen i chi gyflogi llawer o staff i wneud gwahanol bethau, bydd raid i chi dalu cyflogau iddynt, a bydd hynny'n dod o elw'r busnes.

Pa waith mae'r bobl yma'n ei wneud?

A fydd angen hyfforddiant, sgiliau a chymwysterau arbennig ar eich staff? Fel arfer mae pobl â sgiliau uwch yn cael mwy o gyflog na phobl sydd mewn swyddi ansgiliedig.

Faint fyddwch yn ei godi ar bobl i gymryd rhan yn eich gweithgaredd / atyniad? A ydych yn gwneud digon o elw i dalu i'ch staff?

A ydych yn gwybod faint yw pris mynediad rhai atyniadau twristiaid lleol? A yw pris eich atyniad chi yn debyg? Mae angen i chi fod yn gystadleuol er mwyn sicrhau y bydd pobl yn ymweld ac yn ei ddefnyddio, a bydd angen i chi wneud elw!

A fyddwch yn agored drwy'r flwyddyn?

Gall y tywydd yng Ngogledd Cymru 'ddifetha' rhai gweithgareddau. Allwch chi gynnig rhywbeth 'beth bynnag fo'r tywydd'? Os bydd eich busnes wedi cau oherwydd na allwch ei ddefnyddio mewn glaw neu eira trwm neu rew, ni fyddwch yn gwneud unrhyw arian.

Beth sy'n wych am eich atyniad twristiaid a pham ddylai pobl ymweld neu ei ddefnyddio?

Efallai mai dyma'r cwestiwn pwysicaf i'w gael yn gywir ar y cychwyn! A fuasech yn gofyn i'ch rhieni chi fynd â chi yno?

Cynhyrchwyd mewn cydweithrediad a gyda diolch i: Tre-Ysgawen Hall COUNTRY HOUSE HOTEL AND SPA ★★★★

GWEITHGAREDD DOSBARTH
FAN HUFEN IÂ

CANLLAW ATHRO

CYFLWYNIAD

Mae map y Fan Hufen Iâ yn dangos Tref Twristiaid (ar yr ochr arall). Strydoedd yw'r llinellau a chorneli strydoedd yw'r dotiau (cyffyrdd/croesffyrdd). Mae'r dref yn agos i lan y môr, ac yn ystod tymor yr haf, bydd faniau hufen iâ yn parcio ar gorneli strydoedd ac yn gwerthu hufen iâ i dwristiaid.

Mae angen i'r faniau fod mewn lleoliadau fel y gall pawb gyrraedd un drwy gerdded i ben draw eu strydoedd, neu un bloc ymhellach ar y mwyaf.

Dychmygwch y bobl sy'n byw ar y cyffyrdd neu'r croesffyrdd, yn hytrach nag ar strydoedd; mae'n debyg eu bod hwy yn gallu cyrraedd y fan hufen iâ dim ond wrth gerdded am un bloc ar y mwyaf.

Y cwestiwn yw, beth yw lleiafswm y faniau sydd eu hangen, ac ar ba gyffyrdd neu groesffyrdd dylid eu gosod?

PARATOI A DEUNYDDIAU:

- Amser Gweithgaredd: 20 munud

Deunyddiau Angenrheidiol:

- Bwrdd Gwyn/Bwrdd Gwyn Ryngweithiol
- Cownteri plastig (2 liw)
- Map Tref Fan Hufen Iâ

DULL:

1. Rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach, rhowch fap o'r Dref Twristiaid a chownteri i bob grŵp ac egluro'r stori.

2. Dangoswch i'r disgyblion sut mae gosod cownter ar ddot sy'n cynrychioli cyffordd/croesffordd i ddynodi fan hufen iâ, ac yna gosodwch gownteri o liw gwahanol ar y gyffordd sydd un stryd i ffwrdd. Mae pobl sy'n byw ar y cyffyrdd hynny (neu ar hyd y strydoedd sy'n arwain atynt) yn cael hufen iâ o'r fan honno.

3. Gofynnwch i'r plant arbrofi drwy leoli'r faniau mewn gwahanol leoliadau. Wrth iddynt ganfod ffurfweddau sy'n gwasanaethu'r holl gartrefi, atgoffwch hwy bod faniau'n ddrud, a'r syniad yw cael cyn lleied ohonynt â phosibl. Mae'n amlwg y gellir ateb y gofynion os ceir digon o faniau i'w gosod ar bob cyffordd - y cwestiwn diddorol yw beth yw'r nifer lleiaf sydd ei angen arnoch?

4. Y nifer lleiaf o faniau sydd eu hangen ar gyfer Tref Twristiaid yw chwech, a dangosir yr ateb (gwaelod y dudalen). Ond mae'n anodd iawn canfod yr ateb! Ar ôl peth amser, dywedwch wrth y dosbarth mai'r nifer lleiaf posibl yw chwech, a heriwch hwy i ganfod ffordd o'u gosod. Mae hyn yn dal yn broblem eithaf anodd: bydd nifer o grwpiau yn rhoi'n ffidil yn y to yn y diwedd. Gall hyd yn oed ateb sy'n defnyddio wyth neu naw fan fod yn anodd i'w ganfod, a dylid canmol hynny!

5. Crëwyd y map o Dref Twristiaid drwy gychwyn â'r chwe darn o fap a geir ar waelod y daflen waith Faniau Hufen Iâ, y mae pob un angen un fan hufen iâ yn unig. Yna eu cysylltu ynghyd gyda llawer o strydoedd er mwyn cuddio'r ateb. Y prif beth i'w gofio yw peidio â gosod unrhyw gysylltiadau rhwng y cyffyrdd sy'n rhan o'r ateb (y dotiau agored), ond rhwng y rhai ychwanegol yn unig (y dotiau solid). Dangoswch hyn i'r dosbarth gan ddefnyddio taflunydd, neu ei lunio ar y bwrdd.



ATEB:

Mae mwy o wybodaeth a thempledi ar gael yn:

www.nationalstemcentre.org.uk

Mae'r diwydiant hamdden yng Nghymru yn cynnwys popeth o wyliau, chwaraeon a gemau i sinema, teledu a cherddoriaeth byw, i enwi dim ond rhai

Gweithgaredd drwy garedigrwydd Science Unplugged a Chanolfan STEM Genedlaethol y DU © 2009